Unit 13, The Old School, Station Road, Narberth, Pembrokeshire, Wales SA67 7DU
Hengwrt, 8 Carmarthen Road, Llandeilo, Carmarthenshire, Wales SA19 6AE
Tel: 01834 860965 Email: information@planed.org.uk

17 Mai 2023

Annwyl Syr/Madam

Parthed: Hwb Egni Gwyrdd Trecŵn

Yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltiad blaenorol, rydym yn falch iawn o’ch gwahodd i ffurfio’r Grŵp Cyswllt Cymunedol (GCC).

Wedi’i hwyluso’n annibynnol gan PLANED, elusen leol ar gyfer datblygu cymunedau, bydd y GCC yn galluogi preswylwyr lleol a chynrychiolwyr etholedig o’r ardal i drafod ac ymgysylltu gyda chynigion Statkraft ar gyfer pwerdy electrolysis hydrogen gwyrdd a fydd yn cael ei bweru gan dri thyrbin gwynt a phaneli solar yn Nhrecŵn. Bydd y cyfarfod yn ystyried awgrymiadau a syniadau gan bawb fydd yn bresennol, i’w hystyried ymhellach a’u gweithredu wrth i’r cynlluniau ddatblygu.

Drwy gynnal nifer o sgyrsiau bord gron, bydd cyfle i bawb gael dweud eu barn a chyfrannu mewn modd positif, bydd cyfle hefyd i gyfarfod a thrafod gydag eraill mewn awyrgylch mwy anffurfiol yn ystod yr egwyl.

Byddwn hefyd yn trafod y strwythur a’r allbynnau a ddisgwylir gan gyfarfodydd GCC yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ein trafodaethau o fewn y fforwm tryloyw hwn yn bositif ac yn ystyrlon, ac er mwyn sicrhau enwebiadau ar gyfer hyrwyddwyr lleol fydd yn ymgysylltu gyda chydweithwyr sy’n ymwneud â’r prosiect. Gweler wedi'i atodi, Gylch Gorchwyl drafft i’w ystyried o flaen llaw.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Neuadd Gymunedol Treletert ar Ddydd Mawrth 6 Mehefin o 6pm tan 7:30pm, lle bydd croeso cynnes a lluniaeth yn disgwyl amdanoch.

Os gallwch roi gwybod i ni os ydych yn gallu bod yn bresennol erbyn 1 Mehefin byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ymlaen llaw. Cysylltwch â ni drwy alw 0800 772 0668 neu drwy e-bostio ukprojects@statkraft.com.

Yn gywir

**Y Tîm yn PLANED**

*www.planed.org.uk*

